GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487 (CWM RHWYDDFOR, TAL-Y-LLYN, GWYNEDD) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2026

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A487, neu gerllaw iddi, yng Nghwm Rhwyddfor, Tal-y-llyn, Gwynedd.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai sy'n cael eu defnyddio gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 500 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â'r fynedfa i'r eiddo o'r enw Fferm Cwmrhwyddfor hyd at ganolbwynt ei chyffordd â'r B4405 i Dywyn.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd fydd mynd ar yr A487 tua'r de i Fachynlleth, yr A489 tua'r gogledd-ddwyrain i Lantwymyn, yr A470 tua'r gogledd i Cross Foxes a'r A487 tua'r de. I'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 17 Tachwedd 2026. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol dros nos (20:00 o'r gloch hyd 06:00 o'r gloch) o 17 Tachwedd hyd 19 Tachwedd 2026, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 6 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

C WYNN
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

THE A487 TRUNK ROAD (CWM RHWYDDFOR, TAL-Y-LLYN, GWYNEDD) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2026

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A487 at Cwm Rhwyddfor, Tal-y-llyn, Gwynedd.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services or for the works, from proceeding on the length of the trunk road that extends from a point 500 metres north of its junction with the entrance to the property known as Cwmrhwyddfor Farm to the centre-point of its junction with the B4405 to Tywyn.

The alternative route for northbound vehicles will be via the southbound A487 to Machynlleth, north-eastbound A489 to Glantwymyn, northbound A470 to Cross Foxes and southbound A487. Vice versa for southbound vehicles.

The Order will come into force on 17 November 2026. The temporary prohibition is expected to operate overnight (20:00 – 06:00 hours) from 17 November to 19 November 2026, or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to be in force during the period specified above, it will remain valid for a maximum period of 6 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

C WYNN
Transport
Welsh Government